# Trosolwg o'r Wers: Yr Hawl i Fod yn Ddiogel

| | | |
|---|---|---|
| **LLINYN:** | Diogelwch | **Hyd y wers:** Amrywiol hyd at 60 munud, gyda chydsyniad staff y ganolfan. |
| **CYFNOD ALLWEDDOL:** | CA2 Uwch | |
| **GWERS:** | Yr Hawl i Fod yn Ddiogel | |

## NOD

- Galluogi disgyblion i nodi perthynas gadarnhaol

## AMCANION FFRAMWAITH ABCH 2008

- Dangos empathi gyda phrofiadau a theimladau pobl eraill
- Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill
- Deall pwysigrwydd diogelwch personol
- Sut i wahaniaethu rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol
- Beth i'w wneud, neu at bwy i fynd, pan fyddwch yn teimlo'n anniogel
- Gofyn am gefnogaeth neu gyngor personol

## LLYTHRENNED AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae'r wers hon yn cynnwys yr agweddau canlynol o'r fframwaith llythrennedd/rhifedd:

- Siarad – Ll(Ll)s
- Gwrando – Ll(Ll)g
- Cydweithio a thrafod - Ll(Ll) c&th

## AMCANION Y WERS

- Deall bod gennych yr hawl i deimlo'n ddiogel.
- Adnabod elfennau perthynas gadarnhaol a negyddol.
- Gwybod beth i'w wneud ac at bwy i fynd pan fyddwch yn teimlo'n anniogel.
- Noder: Angen bod yn ymwybodol o faterion diogelwch plant allai godi wrth ddelio â'r pwnc hwn

## GEIRIAU ALLWEDDOL

perthynas, cefnogaeth, diogel, anniogel

## ADNODDAU

- Un set dosbarth o gardiau perthynas gadarnhaol / negyddol
- 3 cerdyn pennawd ar gyfer gweithgaredd clystyru
- 2 set o 6 cerdyn llun sefyllfa ac 1 set i gardiau cwestiwn 1 a 2
- PowerPoint yn dangos cardiau sefyllfa
- Pennau
- Papur


© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Sicrhau bod y cysylltiad gyda'r wers flaenorol wedi ei egluro.
- Cytuno ar reolau'r dosbarth / rheolau aur.
- Amlinellu'n glir gytundeb yr ystafell ddosbarth ynglŷn â chyfrinachedd.
- Rhannu, esbonio ac arddangos yr amcanion dysgu a'r geiriau allweddol.

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Gweithgaredd dosbarth cyfan - 'clystyru' - i adnabod elfennau perthynas gadarnhaol / negyddol
- Gweithgaredd grŵp yn defnyddio cardiau lluniau sefyllfa i ddeall yr hawl i fod yn ddiogel
- Gweithgaredd grŵp i nodi - beth i'w wneud ac at bwy i fynd pan fyddwch yn teimlo'n anniogel
- Adborth fel dosbarth.
- Adolygu gan ddefnyddio gweithgaredd help llaw i sicrhau bod disgyblion yn gwybod ble i gael cefnogaeth a chyngor.

### ADOLYGU / DOSBARTH CYFAN

- Nodi pobl all helpu
- Ni allwch ddweud a yw dieithryn yn dda neu'n ddrwg dim ond drwy edrych arnynt.
- Hyd yn oed os ydych chi'n adnabod y person fe ddylech ddweud na nes eich bod wedi gofyn i'ch rhieni.
- Dywedwch wrth rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt os daw dieithryn atoch chi.

### GWEITHGAREDDAU DILYNOL ATHRAWON

Gweler gwefan www.schoolbeat.org am weithgareddau dilynol ac adnoddau athrawon.


© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent